

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Wish Skin Clinic Limited, Port  
Talbot

Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	15
4.	Y camau nesaf .....	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wish Skin Clinic Limited Company ar 16 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Wish Skin Clinic Limited yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd glân, modern a chroesawgar. Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd y gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r cleifion cyn triniaethau i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw gwybodaeth i gleifion a ddarparwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig yn bodloni'r gofynion rheoliadol. Roedd adborth y cleifion yn yr holiaduron a'r adolygiadau ar-lein yn gadarnhaol iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion, gan ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion
- Rhoi proses ar waith i roi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau adborth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad i'r gwasanaeth ar gyfer pobl anabl
- Amgylchedd croesawgar a modern
- Trefniadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion
- Cofnodion cleifion cynhwysfawr.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn drefnus, yn lân ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd triniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd a oedd yn cynnwys digon o le ar y llawr gwaelod. Roedd pob ystafell yn diogelu urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Gwelsom fod trefniadau rheoli heintiau priodol ar waith yn y gwasanaeth a bod amserlenni glanhau a oedd yn cael eu cwblhau'n dda.

Roedd tystiolaeth bod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn ac roedd asesiadau risg tân ac amgylcheddol diweddar ar gael ar gyfer y safle. Roedd cyfarpar cymorth cyntaf priodol ar y safle ac roedd aelodau o'r staff wedi cael

hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel. Roedd pob gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant llawn i ddefnyddio'r peiriannau. Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos ei bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Gwelwyd bod cofnodion y cleifion o safon uchel ac yn hawdd eu deall. Roedd yr holl gofnodion a gwybodaeth a oedd yn cynnwys manylion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal profion ac ymarferion tân rheolaidd ar gyfer yr adeilad
- Adolygu cyfnodau cadw dogfennau yn unol â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd protocolau meddygol ar waith ac yn cael eu dilyn
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar
- Roedd y peiriannau laser yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n briodol i sicrhau triniaethau diogel.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'i thîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o safon dda i'w cleifion.

Roedd tystiolaeth bod proses sefydlu gynhwysfawr ar waith, gyda chydymffurfiaeth dda â gweithdrefnau recriwtio staff. Wrth edrych ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, gwelsom fod cydymffurfiaeth dda ar y cyfan.

Roedd polisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith, ac yn cael eu hadolygu'n unol ag amserlenni penodedig. Fodd bynnag, nid oedd rhifau fersiwn wedi'u nodi ar bob polisi ac nid oeddent wedi cael eu llofnodi i ddangos eu bod wedi cael eu darllen.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd adborth yn cael ei roi drwy gofnodion i'r rhai a oedd yn absennol. Roedd gan y rheolwr cofrestredig hefyd brosesau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac roedd yn adrodd ar y canfyddiadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid llofnodi'r polisiâu a nodi rhif y fersiwn
- Ychwanegu 'cofnod adolygu' gan aelod o staff at y ffolder polisiâu
- Sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn cael eu cadw ar ffeil.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Proses sefydlu gynhwysfawr
- Arfarniadau rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff
- Roedd yr adroddiadau blynyddol fel y nodir yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 wedi'u cwblhau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gofal a thriniaethau a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd pob ymatebydd ond un eu bod wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod y deufis diwethaf. Roedd yr ymatebydd arall wedi cael triniaethau rhwng dau a 12 mis yn ôl. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r clinig yn cael ei gadw'n dda iawn. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei hesbonio ymlaen llaw. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn."*

*"Rwyf wedi bod yn mynd i'r clinig hwn ers sawl blwyddyn nawr ac rwyf bob amser yn teimlo'n hyderus ac rwyf bob amser yn cael gwybodaeth am unrhyw driniaethau rwy'n eu cael. Rwyf bob amser yn cael gwybod yn onest a oes angen y triniaethau y mae gen i ddiddordeb ynddynt arnaf ai peidio."*

*"Gwasanaeth rhagorol"*

#### Urddas a pharch

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod y gwasanaeth yn defnyddio dau beiriant laser cofrestredig, mewn dwy ystafell ar wahân. Roedd yr ystafelloedd trin yn lân ac yn daclus yr olwg ac roeddent yn cynnwys digon o gyfarpar. Roedd drysau cadarn y gellid eu cloi ar y ddwy ystafell drin, ac roeddent yn cael eu cloi pan oedd yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio a phe byddai'r claf yn dymuno newid ei ddillad. Roedd bleinds addas wedi cael eu gosod ar y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd. Lle y bo angen, roedd tywelion ar gael i'r cleifion er mwyn cynnal eu hurddas drwy gydol y triniaethau.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n 'gryf' bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd a'u bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw gwybodaeth i gleifion a rhestr prisiau ar gyfer triniaethau ar gael yn

y gwasanaeth ac ar-lein. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Roedd yn bosibl trefnu apwyntiadau ar gyfer triniaethau ar wefan y gwasanaeth, dros y ffôn neu'n bersonol yn y gwasanaeth.

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru â gwasanaethau cyfieithu a gallai ddefnyddio'r gwasanaethau hynny lle bo angen. Er nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ar adeg yr arolygiad, cawsom wybod fod agenda'r cyfarfod nesaf yn cynnwys y cynnig i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant Cymraeg.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng y staff a'r cleifion yn ystod yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb a oedd yn cael ei gynnal cyn i unrhyw driniaeth gael ei darparu. Roedd gwybodaeth am risgiau, buddiannau a chanlyniadau tebygol triniaethau yn cael eu trafod yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Byddai'r cleifion yn llofnodi'n electronig i nodi eu bod yn cydsynio i driniaeth ar ddyfeisiau iPad a oedd yn cael eu defnyddio i gwblhau'r ymgynghoriad. Byddai'r ymgynghoriad hwn a'r cydsyniad yn cynnwys cadarnhad o unrhyw newidiadau i iechyd meddygol y claf ers cael unrhyw driniaeth flaenorol.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac yn hawdd eu deall. Roedd pob rhan o daith triniaeth claf wedi cael ei chofnodi, gan gynnwys manylion o'r ymgynghoriad cychwynnol, profion croen a'r cydsyniad i driniaeth. At hynny, roedd y risgiau posibl, y sgil-efeithiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth wedi cael eu cofnodi.

Gwelsom fod hanes meddygol y cleifion yn cael ei gwblhau cyn iddynt gael eu triniaethau cyntaf a chyn pob triniaeth wedi hynny. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi gofyn am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Cawsom enghreifftiau o'r ffordd roedd y gwasanaeth yn trin pob un o'r cleifion a'r staff yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau bob amser. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys cynnig apwyntiadau i gleifion â phroblemau symudedd a gwelyau y gellir

addasu eu huchder, neu lle roedd claf yn trawsnewid rhywedd, roedd y rhagenwau a ddewiswyd ganddo yn cael eu defnyddio. Byddai hebryngwyr hefyd yn cael eu defnyddio yn ôl dymuniad y cleifion, megis ffrind teulu neu aelod hyfforddedig o'r staff.

Roedd yr ystafelloedd trin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a oedd yn golygu y gellid trin cleifion â gofynion symudedd yn hawdd. Gwelsom hefyd fod gan y gwasanaeth bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2000.

Dim ond yn Saesneg roedd y ddogfennaeth ar gael. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym pe bai claf yn gofyn am wybodaeth mewn iaith arall y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i hwyluso hyn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.**

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth hwn neu wrth ei ddefnyddio.

#### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y dulliau sydd ar waith i gasglu barn ac adborth gan gleifion ar ôl pob triniaeth, gan gynnwys anfon neges e-bost ar ôl triniaeth sy'n cynnwys doler i'r cleifion nodi eu hadborth a blwch sylwadau yn y dderbynfa. Gwelsom fod 35 o adolygiadau ar-lein ar gyfer y gwasanaeth hwn, ac roedd pob un ohonynt wedi rhoi sgôr o bum seren. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn monitro pob math o adborth ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i adolygu a gwella'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

Er bod y lleoliad yn annog adborth gan gleifion, nid oedd yn ymddangos fod proses ar waith i roi gwybod i gleifion am ganlyniadau'r adborth hwn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses tebyg i hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a'u hannog i barhau i gymryd rhan mewn trefniadau i wella'r practis.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch ymwelwyr â'r safle. Gwelsom fod y gwasanaeth yn drefnus, yn lân ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd asesiadau risg tân ac amgylcheddol diweddar ar waith ar gyfer y safle a gwelsom dystysgrifau ar gyfer diogelwch nwy, weirio trydanol a phroffion PAT ar gyfarpar trydanol. Roedd cyfarpar cymorth cyntaf priodol ar gael, ynghyd â llyfr damweiniau yn ardal y dderbynfa. Roedd gan bob aelod o'r staff hefyd dystysgrif i ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwelsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn a bod y staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal ar y cyd rhwng y clinig a'r practis deintyddol cyfagos; fodd bynnag, nid oedd ymarferion tân penodol yn cael eu cynnal ar gyfer yr adeilad.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnal profion tân ac ymarferion tân yn rheolaidd ar gyfer yr adeilad, a hynny ar wahân i'r practis deintyddol.**

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwnaethom arolygu pob ystafell drin yn y gwasanaeth. Roedd yr ystafelloedd hyn yn lân ac yn daclus yr olwg, ac roedd yn ymddangos eu bod yn cynnwys digon o gyfarpar.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y gwasanaeth a chyflwynodd dystiolaeth o'r amserlenni glanhau i brofi hyn. Roedd y trefniadau yn cynnwys cwblhau gwiriadau dyddiol o bob ystafell drin, gydag amser wedi'i neilltuo bob dydd i'w cynnal. Roedd mesurau rheoli heintiau wythnosol a misol ychwanegol ar waith.

Gwnaethom edrych ar y polisi sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Roedd y polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth am ddiheintio'r peiriannau laser, y darnau llaw a'r sbectolau amddiffynnol ynghyd â dulliau hylendid dwylo priodol. At hynny, roedd yn egluro'r trefniadau ar gyfer diheintio'r cyfarpar, y byrddau trin cleifion a'r arwynebeddau gwaith cyn ac ar ôl defnyddio'r ystafell drin.

Roedd biniau gwaredu offer miniog ar gael ym mhob ystafell drin. Roedd dyddiadau arnynt, roeddent yn cael eu llofnodi a'u storio'n briodol. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol drwy ddarparwr allanol a bod trefniadau ar waith drwy'r cyngor lleol ar gyfer gwastraff cyffredinol.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y safle 'yn lân iawn' pan wnaethant ymweld ag ef a'u bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, a oedd yn dangos nad oedd unrhyw bryderon am lendid y gwasanaeth.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd systemau a dogfennaeth ar gael er mwyn helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Er nad oedd plant yn cael eu trin ar y safle ar hyn o bryd, roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin plant dros 16 oed. Roedd tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol.

Gwnaethom edrych ar y polisi diogelu sydd ar waith a oedd yn nodi'r camau priodol i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y ddogfen yn cael ei diweddarau'n unol â Phrotocol Diogelu Cymru Gyfan.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y ddau beiriant laser cofrestredig yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth. Roedd yr holl drefniadau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff wrth ddefnyddio'r peiriannau laser.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig, a oedd yn rhoi cymorth a chynghor ar ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel. Roedd rheolau lleol ar waith ac roeddent wedi cael eu hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ystod y deufis diwethaf. Roedd y peiriannau laser yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gael ym mhob ystafell i'r cleifion a'r gweithredwyr hyfforddedig.

Roedd protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd angen allweddi i weithio'r ddau beiriant laser, ac roedd yr allweddi hyn yn cael eu tynnu pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio. Byddai'r gweithredwr bob amser yn cadw'r allweddi rhwng cleifion neu byddent yn cael eu rhoi mewn storfa allweddi mewn ystafell dan glo.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth fod pob un o'r gweithredwyr laser wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriannau laser. Roedd yr aelodau perthnasol o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom dystysgrifau yn dangos hyn. Roedd hyfforddiant y gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel wedi cael ei gwblhau ac roedd hyfforddiant gloywi wedi

cael ei drefnu ar gyfer y mis yn dilyn yr arolygiad. Roedd cloeon ar ddrysau'r ystafelloedd trin er mwyn sicrhau diogelwch y claf a'r gweithredwr yn ystod triniaethau, ac roedd arwyddion priodol wedi'u gosod ar ddrysau'r ystafelloedd trin er mwyn rhybuddio pobl i beidio â mynd i mewn pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael prawf croen cyn dechrau unrhyw driniaeth er mwyn sicrhau eu diogelwch a oedd yn dangos a oeddent yn debygol o brofi unrhyw adweithiau niweidiol. Hefyd, gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion a welsom. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth laser.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r triniaethau a oedd yn cael eu darparu ac roeddent yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn y maes ymarfer hwn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod aelodau o'r staff yn awyddus i barhau i ddysgu er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn amlwg yn y nodiadau o'r trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal yn ystod arfarniadau. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ôl-driniaeth ac apwyntiadau dilynol gyda'r cleifion er mwyn helpu i wella'r gofal a ddarperir drwy gydol y triniaethau a gynllunnir.

### **Rheoli cofnodion**

O'r cofnodion a'r ddogfennaeth a welsom, gwelwyd tystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion. Roedd y sampl o gofnodion yn ddigon manwl ac yn glir iawn i'w dilyn. Roedd pob elfen o'r cofnodion yn adlewyrchu taith y cleifion cyn ac ar ôl triniaethau. Roedd cofnodlyfrau triniaethau'r cleifion yn cael eu cwblhau ynghyd â'r prif gofnodion ar yr iPads yn y gwasanaeth. Roedd cofnodion yn cael eu cadw mewn modd trefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod cyfnodau cadw dogfennau yn amrywio ychydig.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu dogfennaeth a sicrhau bod pob cyfnod cadw data yn dilyn y cyfnodau a nodir yn y rheoliadau perthnasol.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Wish Skin Clinic yn cael ei oruchwylio gan y rheolwr cofrestredig, gyda chymorth tîm o staff, yr oedd dau ohonynt yn weithredwyr laser cymwysedig.

Rhodddwyd tystiolaeth i ni fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau adroddiad blynyddol yn unol â rheoliad 19 (3) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Roedd hyn yn ymwneud ag asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. At hynny, roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr cyfredol i'w gweld yn y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau ymarfer yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cadw cofnodion ac archwiliadau o ymarfer clinigol. Cawsom wybod y byddai unrhyw newidiadau neu addasiadau gofynnol yn dilyn yr archwiliadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn unol â hynny.

Gwelsom lawer o bolisiau, a oedd yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn ein barn ni. Nodwyd gennym fod y polisiau hyn wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd. Roedd pob newid i bolisi neu weithdrefn yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd tîm rheolaidd, neu drwy ap ar-lein. Roedd yn ofynnol i'r staff ddarllen y diweddariadau ar ffurf electronig a nodi eu bod wedi'u gweld. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y cofnod adolygu electronig na llofnodion y staff, i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisiau, ar gael yn y ffolder copïau caled. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd rhai o'r polisiau a oedd wedi cael eu hargraffu yn cynnwys rhifau'r fersiynau.

## Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod pob polisi yn cael ei lofnodi a'i fod yn cynnwys dyddiad adolygu a rhif y fersiwn**
- **Bod y 'cofnod adolygu' electronig i ddangos bod staff wedi adolygu'r polisiau yn cael ei ychwanegu at y ffolder copïau caled.**

Roedd pob aelod o'r staff yn glir ynghylch ei rolau a'i gyfrifoldebau ac roedd llinellau adrodd clir ar waith. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cyfarfodydd neu 'sgrymiau' ychwanegol yn cael eu cynnal yn gynt o bryd i'w gilydd os oedd eu hangen. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd tîm a oedd wedi cael eu cynnal yn ystod y misoedd diwethaf a nodwyd bod eitem sefydlog ar yr agenda i gynnwys "unrhyw fusnes arall".

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses lawn ar gyfer gwneud cwyn yn fanwl a gwelsom y polisi cwynion a oedd yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol, gan gynnwys manylion AGIC fel sy'n ofynnol. Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli pryderon a digwyddiadau. Roedd gwefan y gwasanaeth a'r canllaw gwybodaeth i gleifion hefyd yn cynnwys manylion am y broses gwyno.

Roedd system ar waith i gofnodi cwynion ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, ni fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod y staff yn cysylltu â'r cleifion i gael adborth yn dilyn eu triniaeth bob amser.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses sefydlu ar gyfer staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol, cyfnodau o gysgodi staff cymwysedig, ac yna waith ymarferol, gan gynnwys asesu mathau croen ar gyfer triniaethau laser. Roedd sesiynau goruchwyllo yn rhan o'r broses sefydlu a byddai cymwyseddau yn cael eu cymeradwyo'n raddol, gyda'r gwasanaeth yn cynyddu'r amser ar gyfer hyn, lle bo angen, neu'n darparu hyfforddiant ychwanegol pe byddai angen.

Byddai pob aelod o'r staff yn destun cyfnod prawf a sesiynau goruchwyllo rheolaidd ar ôl tri mis, chwe mis a 12 mis o weithio yn y gwasanaeth. Ar ôl iddynt gwblhau hyfforddiant neu gymwysterau priodol, roedd gwiriadau dirybudd hefyd yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig o'r gofal a'r triniaethau a oedd yn cael eu darparu gan y staff.

Roedd pob aelod o'r staff yn cael ei gefnogi o fewn cylch gwaith ei rôl ac roedd pob gweithredwr laser wedi cwblhau cymwysterau ffurfiol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol, ni wnaeth beth fo'i rôl yn y gwasanaeth, a oedd hefyd yn helpu i gymell y staff ac i nodi unrhyw feysydd hyfforddiant pellach y gallai fod eu hangen.

Gwnaethom edrych ar ystod o ddogfennau hyfforddiant a thystysgrifau cymwysterau, gan gynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser ar gyfer y defnyddwyr awdurdodedig. Roedd y rhain yn cadarnhau bod y staff yn meddu ar gymwysterau addas i weithredu pob peiriant laser. Cadarnhaodd y gwasanaeth y bwriedir cynnal hyfforddiant gloywi ar gyfer dyfeisiau penodol i'r aelodau perthnasol o staff yn ystod y mis yn dilyn yr arolygiad.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r broses recriwtio ar gyfer staff newydd. Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal ac roedd y



gwasanaeth yn gofyn am dystiolaeth o gymwysterau perthnasol cyn i staff ddarparu unrhyw driniaethau.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cydymffurfio â'r rheoliad statudol a'r gofynion ailddilysu a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n briodol tan iddynt gyflawni eu cymwyseddau.

Roedd gan bob aelod o'r staff dystysgrifau priodol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS). Roedd un dystysgrif DBS wrthi'n cael ei hadnewyddu oherwydd newid mewn amgylchiadau a chawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig y byddai'n cael ei diweddarau a'i chadw ar ffeil wedi iddi gyrraedd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn cael ei chadw ar ffeil wedi iddi gyrraedd, yn unol â'r arfer presennol.**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Wish Skin Clinic Limited

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wish Skin Clinic Limited

Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 18	Caiff cwrs Cymraeg a/neu iaith Arwyddion Prydain ei gynnig i'r tîm yn ystod y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu.	Laura Morris (Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig)	07/12/2023
	Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru - Safon 18	Holi cyflenwyr i weld a yw'r taflenni gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill.	Karly Davies - Goruchwylydd y Clinig	31/12/2023
		Pob aelod o'r tîm i ofyn i'r cleifion nodi eu dewis iaith a gwneud cofnod ohono.	Karly Davies - Goruchwylydd y Clinig	Dechrau ar unwaith - parhaus
		Atgoffa pob aelod o'r tîm bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os byddai'n well gan gleifion ddefnyddio hwnnw.	Laura Morris (Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig)	Cyfarfod wedi'i drefnu 07/12/2023

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses tebyg i hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a'u hannog i barhau i gymryd rhan mewn trefniadau i wella'r practis.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 19 (2) a 28</p> <p>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal lechyd Annibynnol yng Nghymru - Safon 5</p>	<p>Mae templedi'r cylchlythyr misol wedi cael eu newid i gynnwys adran lle rydym yn cynnwys gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' a chipolwg ar yr adborth sydd wedi dod i law yn ddiweddar.</p>	<p>Karly Davies (Goruchwylydd y Clinig)</p>	<p>Wedi'i gwblhau 02/11/2023</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnal profion tân ac ymarferion tân yn rheolaidd ar gyfer yr adeilad, a hynny ar wahân i'r practis deintyddol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 26</p>	<p>Mae ymarferion tân wedi'u trefnu bob chwarter er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r tîm gymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r ymarferion hyn yn benodol ar gyfer safle Wish Skin Clinic a'i staff arferol ac yn annibynnol ar ein chwaer bractis.</p>	<p>Laura Morris (Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig)</p>	<p>Mawrth 2024 Mehefin 2024 Medi 2024 Rhagfyr 2024</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu dogfennaeth a sicrhau bod pob cyfnod cadw data yn dilyn y cyfnodau a nodir yn y rheoliadau perthnasol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 23 ac Atodlen 3</p> <p>a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar</p>	<p>Adolygu a diwygio cyfnod y Polisi Cadw Dogfennau i wyth mlynedd yn unol â'r rheoliadau.</p>	<p>Laura Morris (Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig)</p>	<p>Wedi'i gwblhau 19/10/2023</p>

	gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru - Safon 20			
<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod pob polisi yn cael ei lofnodi a'i fod yn cynnwys dyddiad adolygu a rhif y fersiwn</p> <p>Bod y 'cofnod adolygu' electronig i ddangos bod staff wedi adolygu'r polisiau yn cael ei ychwanegu at y ffolder copïau caled.</p>	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 9	<p>Cynnwys taflen gynnwys o'r polisiau yn y ffolder polisiau i gynnwys rhif y fersiwn a dyddiadau'r adolygiad diwethaf a'r adolygiad nesaf. Mae hyn yn dileu'r angen i nodi dyddiadau adolygu ysgrifenedig ar bolisiau unigol.</p> <p>Mae taflen lofnodi yn y ffolder polisiau i bob aelod o'r tîm ei lofnodi.</p>	Laura Morris (Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig)	31/01/2024
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn cael ei chadw ar ffeil wedi iddi gyrraedd, yn unol â'r arfer presennol.</p>	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 21 ac Atodlen 2	Pob aelod o'r tîm i gwblhau ffurflen datganiad flynyddol ac i gofrestru â'r gwasanaeth diweddariadau.	Laura Morris	31/01/2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Laura Morris

**Teitl swydd:** Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig

**Dyddiad:** 23/11/2023